



Llywodraeth EM

CYNLLUN GAEAF COVID-19

Tachwedd 2020

CP 324



CYNLLUN GAEAF COVID-19

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan y Prif Weinidog
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Tachwedd 2020



© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael drwy www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni drwy publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-2264-6

CCS1120571162 11/20

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 75%

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

RHAGAIR GAN Y PRIF WEINIDOG	3
1. CYFLWYNIAD	5
CYD-DESTUN RHYNGWLADOL	8
AMCANION Y LLYWODRAETH	10
2. Y LLWYBR YN ÔL AT NORMALRWYDD	11
BRECHIADAU	11
TRINIAETH	14
PROFION	15
3. RHEOLI'R FEIRWS	19
DULL TARGEDIG YN LLOEGR	19
YMDDYGIADAU A CHYDYMFFURFIAETH	28
Y NADOLIG A THU HWNT	31
4. DIOGELU'R GIG A PHOBL FREGUS	33
DIOGELU POBL FREGUS	33
GOFAL CYMDEITHASOL	33
GRWPIAU SY'N CAEL EU HEFFEITHIO YN ANGHYMESUR	35
CAPASITI'R GIG	35
5. CADW ADDYSG A'R ECONOMI I FYND	38
CYMORTH BUSNES A LLEIHAU'R EFFAITH ECONOMAIDD	38
DIOGELU ADDYSG	40
PRIFYSGOLION	42
ATODIAD: DATA AND TYSTIOLAETH	43
Ffynonellau Atodiad:	55

RHAGAIR GAN Y PRIF WEINIDOG

Erbyn hyn nid oes amheuaeth - mae'r marchoglu gwyddonol ar fin cyrraedd. Mae'r datblygiadau o ran brechiadau a thriniaethau ar gyfer COVID-19 yn anhygoel. Gan obeithio a chredu y byddant yn effeithiol, mae'r Llywodraeth wedi caffael cannoedd ar filiynau o ddosiau brechiadau i'w rhyddhau ledled y DU, y Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron a Thiriogaethau Tramor. Rydym yn paratoi ar gyfer rhaglen frechiadau genedlaethol i'w threfnu ar raddfa enfawr ar draws y wlad i gyd yn dechrau mis nesaf.

Erbyn y gwanwyn, dylai'r datblygiadau hyn leihau'r angen am gyfyngiadau economaidd a chymdeithasol. Dylem allu cael gwared ar y syniad o gyfnod clo COVID-19. Gallwn nawr weld y ffordd allan o'r epidemig hwn, cyn belled ag y caiff y brechiadau eu cymeradwyo a'u dyrannu'n llwyddiannus.

Ond mae'r gwanwyn fisoedd i ffwrdd eto. Ni allwn glicio ein bysedd, a brechu'r mwyaf bregus. Bydd angen gweithio'n hir ac yn amyneddgar, a bydd angen cyflawni camp logisteg enfawr. Golyga hynny y bydd rhaid i ni fod yn amyneddgar, a rhaid i ni fod yn realistig. Mae misoedd caled, oeraidd o'n blaenau eto - ac yn y cyfamser, rhaid i ni gadw rheolaeth ar y feirws.

Yn draddodiadol, mis Ionawr a Chwefror yw'r misoedd anoddaf i'r GIG, yn nyfnderoedd y gaeaf, pan mae wardiau ein hysbytai dan y pwysau mwyaf. Ni allwn fforddio trydedd neu bedwaredd don hyd yn oed o'r afiechyd hwn. Ac eto, ymchwydd newydd yn y flwyddyn newydd yw yn union beth fydd yn digwydd, os byddwn yn methu â chymryd rhagofalon priodol.

Felly wrth i ni ddod i ben â'n cyfyngiadau cenedlaethol ar 2 Rhagfyr, ni fyddant yn cael eu disodli gyda chynllun rhydd i bawb. Yn hytrach, bydd Lloegr yn parhau i ddefnyddio dull gweithredu synhwyrol yn seiliedig ar dair haen. A gan fod cyfradd yr afiechyd yn dal i fod yn uchel, gwaetha'r modd, bydd yr haenau yn parhau i fod yn llym.

Yn wir, byddant yn fwy llym na mis Hydref. Does neb eisiau dad-wneud cynnydd y cyfnod clo. Rhaid i ni gadw'r cyfraddau heintio i lawr.

Hyd yn oed cyn i'r brechiad gyrraedd, mae gennym adnodd newydd i'w ddefnyddio. Mae gennym brofion canlyniadau cyflym sy'n ein caniatáu ni i adnabod ac ynysu pobl nad oes ganddynt symptomau ond sy'n lledaenu'r feirws yn anfwriadol.

Rydym yn cyflwyno'r profion hyn i staff rheng flaen y GIG, gofal cymdeithasol a lleoliadau risg uchel neu gritigol eraill. Rydym yn eu defnyddio i gynorthwyo ysgolion a phrifysgolion i weithredu a gostwng achosion o'r afiechyd.

Ond mae hefyd yn amlwg bod ffordd arall o ddefnyddio'r profion cyflym hyn - sef dilyn enghraifft Lerpwl a phrofi cymunedau cyfan. Yn yr wythnosau nesaf byddwn yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a chymunedau i sicrhau ein bod yn cynnig yr adnodd newydd hwn yn yr ardaloedd sy'n wynebu'r cyfyngiadau mwyaf llym, yn targedu'r profion yn yr ardaloedd sydd eu hangen fwyaf.

Nid yw'r system hon wedi'i phrofi. Mae nifer o agweddau sy'n peri ansicrwydd. Ond os bydd yn gweithio, dylem allu cynnig rhagor o ryddid i'r bobl sy'n profi'n negatif - cwrdd mewn cyd-destunau penodol gydag eraill sydd wedi profi'n negatif. Byddwn yn cefnogi'r rheiny sydd wedi profi'n bositif, i'w cynorthwyo gydag ynysu. Ond gwyddant ar ddiwedd eu cyfnod ynysu, bydd ganddynt hwythau hefyd ragor o ryddid.

A phan fydd trefi, cymunedau neu ranbarthau yn dangos eu bod hwythau hefyd wedi ymgysylltu â phrofi cymunedau, byddant yn llawer mwy tebygol o leihau'r cyfyngiadau maent yn byw oddi tanynt.

Felly, yn yr wythnosau nesaf, byddwn yn defnyddio'r ddau amlygiad newydd gwyddonol hyn i frwydro yn erbyn yr afiechyd. Byddwn yn dosbarthu'r brechiad cyn gynted ag y gallwn. Ond o ystyried y bydd hyn yn cymryd amser, ar yr un pryd byddwn yn defnyddio profion cyflym i adnabod achosion asymptomatig a lleihau lledaeniad.

Drwy gadw'r feirws dan reolaeth y gaeaf hwn, gobaith y Llywodraeth yw galluogi cyfeillion a theuluoedd i ddod at ei gilydd dros y Nadolig. Wedi dweud hynny, ni fydd hwn yn Nadolig cyffredin. Bydd y cyfyngiadau yn parhau, a bydd risg lledaenu yn dal i fod. Ond erbyn hyn rydym yn gweld y diwedd, a gwn fod gennym y penderfynoldeb i lwyddo.

Mae natur anhunanol y cyhoedd wrth ddilyn y rheolau yn gwneud gwahaniaeth. Nid yw'r feirws yn lledaenu bron mor gyflym ag y byddai pe na fyddem yn golchi ein dwylo, ymbellhau'n gymdeithasol, gwisgo masgiau ac ati. Ac yn Lloegr, lle daeth cyfyngiadau cenedlaethol i rym ar ddechrau'r mis hwn, mae'r cynnydd yn yr achosion newydd yn llyfnhau¹.

Ni fyddai hynny wedi bod yn bosibl heb y cyhoedd yn gwneud yr hyn y gofynnwyd iddynt ei wneud.

Mae hi wedi bod yn amser anodd. Ond daw'r flwyddyn newydd â gobaith newydd - ac er bod y ffordd o'n blaenau yn hir, dangosir y cynllun hwn sut, gyda'n gilydd, y byddwn yn dod drwyddi.

¹ <https://coronavirus.data.gov.uk/details/cases>.

1. CYFLWYNIAD

1. Mae Cynllun Gaeaf COVID-19 y Llywodraeth yn cyflwyno rhaglen ar gyfer atal y feirws, diogelu'r GIG a'r rhai bregus, cynnal addysg a'r economi a chynnig llwybr yn ôl at normalrwydd.
2. Prif nod Llywodraeth y DU yw gwarchod bywydau a bywoliaeth dinasyddion ledled Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Mae wedi gweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig yn seiliedig ar y nod cyfrannol hwn. Mae'r Llywodraeth wedi caffael brechiadau ar gyfer y DU gyfan, mae ei gallu i brofi yn gwasanaethu pedair cenedl y DU, ac mae'r Llywodraeth wedi cynnal mwy o brofion nag unrhyw wlad arall yn Ewrop. Mae symiau sylweddol o Gyfarpar Diogelu Personol wedi'u caffael, gweithgynhyrchu ac yna eu dosbarthu ledled Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Mae'r Lluoedd Arfog wedi bod yn amhrisiadwy yn cefnogi cymunedau a gwasanaethau iechyd. Mae Trysorlys EM wedi sefydlu pecyn hollol newydd o gymorth i fusnesau ac unigolion ar draws pedair cenedl y DU. Mae dull gweithredu cydlynol awdurdodau'r DU wedi'i gymeradwyo gan y Gronfa Ariannol Ryngwladol fel "un o'r enghreifftiau gorau yn fyd-eang o weithredu ar y cyd - [sydd] wedi cynorthwyo i leddfu difrod, yn cadw diweithdra a diffyg arian i lawr".
3. Mae brechiadau wrth galon cynllun y Llywodraeth. Mae cyrhaeddiad byd-eang y DU yn ei rhoi mewn safle cryf i gaffael brechiadau - gyda dros 350 miliwn o ddosiau wedi'u sicrhau gan Lywodraeth y DU er budd y pedair cenedl.
4. Mis nesaf, bydd y Llywodraeth yn barod i ddechrau rhaglen frechu ar draws y DU, ar yr amod bod rheoleiddwyr yn cymeradwyo'r brechiadau. Dylai datblygiadau gwyddonol o ran brechiadau a thriniaethau leihau'r angen am gyfyngiadau economaidd a chymdeithasol o'r gwanwyn.
5. Tan hynny, rhaid i'r Llywodraeth ddibynnu ar adnoddau eraill i atal y feirws. Bydd y Llywodraeth yn datblygu'r peilotau yn Lerpwl a Merthyr Tudful gyda phrofi cymunedau yn ehangach, gan ein caniatáu ni i adnabod ac ynysu pobl nad oes ganddynt symptomau ond sy'n lledaenu'r feirws yn anfwriadol. Yn ogystal, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno profion cyflym yn genedlaethol i staff rheng flaen y GIG, gofal cymdeithasol a lleoliadau risg uchel neu gritigol eraill. Caiff y strategaeth hon ei chefnogi gan £7 biliwn yn ychwanegol i wasanaeth Profi ac Orlhain y GIG i gynyddu profion a pharhau i wella olrhain cysylltiadau, gan godi cyfanswm y cyllid a ddarparwyd i Brofi ac Orlhain y flwyddyn ariannol hon i £22 biliwn.

6. Mae'r Cynllun Gaeaf COVID-19 hwn yn sicrhau y gellir codi'r cyfyngiadau cenedlaethol presennol ar 2 Rhagfyr. Mae hyn yn bosibl oherwydd bod ymdrechion pawb yn ystod y cyfyngiadau presennol yn Lloegr wedi arafu lledaeniad y feirws a lleihau'r pwysau ar y GIG. Ar 2 Rhagfyr, ledled Lloegr, waeth beth fo'r haen:
 - a. Bydd y gofyn i aros gartref yn dod i ben, gyda theithio domestig a rhyngwladol yn cael ei ganiatáu eto yn amodol ar gyfarwyddyd ym mhob haen.
 - b. Bydd siopau, gofal personol, campfeydd a'r sector hamdden ehangach yn ailagor.
 - c. Gall addoli ar y cyd, priodasau a chwaraeon awyr agored ailddechrau, yn amodol ar ymbellhau'n gymdeithasol.
 - d. Ni fydd pobl bellach yn cael eu cyfyngu i weld dim ond un unigolyn ym mannau cyhoeddus yn yr awyr agored - bydd y rheol 6 yn berthnasol bellach fel yr oedd yn y cyfuniad blaenorol o haenau.
7. Serch hynny, mae niferoedd y feirws yn parhau i fod yn uchel a, heb gymryd rhagofalon, gallai fynd yn draed moch yn gyflym cyn i'r brechiadau a'r profi cymunedau ar raddfa fawr gael effaith. Byddai hynny'n peryglu'r cynnydd y mae'r wlad wedi'i wneud ac, unwaith eto, yn cyflwyno'r risg o bwysau annioddefol ar y GIG, ac atal cleifion heb COVID-19 rhag cael triniaethau angenrheidiol.
8. Felly, bydd Lloegr yn dychwelyd at y dull gweithredu rhanbarthol yn ôl haenau oherwydd mae'n briodol targedu'r mesurau mwyaf llym yn yr ardaloedd lle mae'r feirws fwyaf amlwg yn unig a lle'r ydym yn gweld cynnydd mwy amlwg yn y gyfradd heintio. Cafodd y system haenau flaenorol effaith ar ledaeniad y feirws ond cynghorodd SAGE y byddai angen mesurau cryfach yn rhai ardaloedd i atal yr epidemig rhag cynyddu. Felly, mae angen cryfhau'r haenau i gadw'r feirws dan reolaeth:
 - a. Yn haen 1, bydd y Llywodraeth yn atgyfnerthu pwysigrwydd gweithio gartref pryd bynnag y mae'n bosibl.
 - b. Yn haen 2, rhaid i dafarndai a bariau gau heblaw eu bod yn gweini prydau bwyd sylweddol (megis brecwast llawn, prif gwrs amser cinio neu bryd gyda'r nos), ynghyd â diodydd.
 - c. Yn haen 3, bydd pob sefydliad lletygarwch yn cau ac eithrio ar gyfer dosbarthu, prydau i fynd a gyrru drwodd; rhaid i westai a darparwyr llety eraill gau (heblaw am eithriadau penodol, gan gynnwys pobl yn aros ar gyfer gwaith neu pan na allant ddychwelyd adref); a rhaid i leoliadau adloniant dan do gau hefyd.
9. Mae'r haenau hyn wedi'u dylunio i leihau a chadw R yn is nag 1 ac felly'n caniatáu i ardaloedd symud i lawr yr haenau, yn wahanol i'r haenau blaenorol a oedd, ar y cyfan, yn arafu'r cynnydd, gan arwain at epidemig a oedd yn parhau i dyfu. Mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi'r dangosyddion a fydd yn cynorthwyo i bennu pa haen y bydd pob ardal yn mynd iddi ar 2 Rhagfyr a sut y bydd ardaloedd yn symud rhwng haenau ar ôl hynny. Bydd y Llywodraeth yn dadansoddi'r data diweddaraf ac yn cyhoeddi yn hwyrach yr wythnos hon yr haenau a ddynodir i bob ardal. Oherwydd yr angen i leihau niferoedd ymhellach, bydd mwy o ardaloedd yn mynd i'r haenau uwch.

10. Bydd y Llywodraeth hefyd yn mireinio'r haenau blaenorol:
- Mae'r amser cau am 10pm ar gyfer lleoliadau lletygarwch wedi'i addasu i archebion olaf am 10pm a chau am 11pm. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gwsmeriaid adael yn raddol ac mae'n rhoi mwy o hyblygrwydd.
 - Yn haen 1 neu 2, gall chwaraeon i wylwyr a digwyddiadau busnes ailddechrau dan do ac yn yr awyr agored gyda chyfyngiadau llym yn ôl maint y dorf ac ymbellhau'n gymdeithasol, gan gynnig mwy o gysondeb gyda pherfformiadau dan do mewn theatrau a neuaddau cyngerdd.
 - Mae'r Llywodraeth yn ehangu cymhwysedd 'swigod cefnogi'². Bydd hyn yn helpu i liniaru effaith y cyfyngiadau ar rieni plant dan 1 oed (neu dan 5 oed sydd ag anabledd sy'n gwneud gofal parhaus yn angenrheidiol) ac i'r aelwydydd hynny lle mae un oedolyn yn gofalu am rywun ag anabledd difrifol.
11. Drwy gadw rheolaeth o'r feirws drwy gydol fis Rhagfyr, gall y Llywodraeth alluogi i bawb weld mwy o'u teuluoedd a chyfeillion dros y Nadolig. Mae'r Llywodraeth yn gweithio i gytuno ar gynlluniau cyffredin ar gyfer y Nadolig gyda gweinyddiaethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd yn bwysig caniatáu i deuluoedd a chyfeillion gwrdd mewn modd gofalus a chyfyngedig, gan gydnabod na fydd hwn yn gyfnod Nadoligaidd arferol ac mae'r risg o ledaenu yn parhau'n uchel. Mae amcan cyfrannol i hwyluso ychydig o swigod ychwanegol cyfyngedig i aelwydydd am nifer fechan o ddyddiau. Cynghorir y cyhoedd i barhau i fod yn ofalus. Lle bynnag sy'n bosibl, dylai pobl osgoi rhag teithio a lleihau cyswllt cymdeithasol. Mae'r gwaith yn parhau i gadarnhau'r trefniadau, gan gynnwys mewn perthynas â theithio. Gobaith Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Adran Weithredol Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU yw cwblhau'r gwaith hwn yr wythnos hon, yn amodol ar bob gweinyddiaeth yn cytuno.
12. Er eu bod yn llai caeth na'r mesurau cenedlaethol presennol, mae'r Llywodraeth yn cydnabod pa mor llym yw'r mesurau hyn i bobl a busnesau haen 3, yn enwedig y rhannau hynny o'r wlad sydd wedi bod dan ryw fath o gyfyngiad ers yr haf. Bydd y Llywodraeth yn cynnig cyfle i Awdurdodau Lleol weithio gyda'i gilydd i brofi cymunedau cyfan a mwy o brofion targedig yn lleoliadau risg uchel, yn ogystal ag ehangu'r cynllun profi craidd. Ochr yn ochr â hunanyngysu gan y rhai sy'n cael prawf

² **Swigen Gefnogaeth:** Rhwydwaith cefnogi caeedig arbennig rhwng dwy aelwyd yw swigen gefnogi. Mae'n golygu y cewch gyswllt agos â'r aelwyd honno fel petaent yn aelodau o'ch aelwyd eich hun. O 2 Rhagfyr, gallwch ffurfio swigen gefnogaeth gydag aelwyd arall, os oes gan o leiaf un o'r aelwydydd:

- un oedolyn yn unig; (gan gynnwys aelwyd lle mae unrhyw blant dan 18 oed)
- un gofalwr oedolyn yn unig (h.y. yn byw gydag unrhyw oedolyn/oedolion ychwanegol yn yr aelwyd sydd ag anabledd ac angen gofal parhaus);
- plentyn dan 1 oed (waeth sawl oedolyn arall sydd yn yr aelwyd); neu
- plentyn dan 5 sydd ag anabledd sy'n gofyn gofal parhaus (waeth sawl oedolyn arall sydd yn yr aelwyd)

Swigen Gofal Plant: Swigen gofal plant yw lle mae un aelwyd yn cysylltu'n arbennig ag un aelwyd arall er mwyn darparu gofal plant anffurfiol i blentyn neu blant 13 oed neu ieuengach. Gallant ddarparu'r gofal plant yn y naill gartref o blith y 2 aelwyd neu yn y ddau.

positif, mae'r ehangiad sylweddol hwn yn y profion yn adnodd newydd hanfodol i helpu ardaloedd symud allan o'r mesurau mwyaf caeth.

13. Ar 25 Tachwedd, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi canlyniadau'r Adolygiad o Wariant, a fydd yn gosod cynlluniau gwario adrannol ar gyfer 2021-22. Bydd hwn hefyd yn darparu manylion o sut fydd adrannau yn cael eu hariannu er mwyn cyflwyno'r cynllun hwn ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill.
14. Yn y tymor canolig, wrth i ni weld buddion brechiadau a phrofi cymunedau, dylai'r angen am gyfyngiadau leihau'n raddol a dylai bywyd ddechrau dychwelyd yn nes at yr arfer ar draws y wlad.

CYD-DESTUN RHYNGWLADOL

15. Mae COVID-19 yn parhau i fod yn bandemig byd-eang sy'n effeithio ar bob rhan o'r byd. Ar ôl gostyngiad yn yr achosion dros yr haf, mae'r DU a rhan fwyaf o Ewrop nawr yn profi ail don o'r feirws. Daethpwyd â'r don gyntaf dan reolaeth yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop ym mis Ebrill, ond ym mis Awst, dechreuodd y nifer o achosion godi eto. Rhwng 18 Awst a 1 Medi, cynyddodd achosion yn Sbaen o 55%, Ffrainc o 123%, a'r Eidal o 161%. I ddechrau, ymddengys fod nifer o wledydd cyfagos yn cadw cyfraddau heintio yn isel. Wedi dweud hynny, drwy fis Medi a Hydref, dechreuodd yr haint ledaenu yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop. Erbyn hyn mae cyfradd achosion wythnosol o dros 400 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 12 o wledydd Ewrop³.
16. Mae nifer yr achosion yn yr ysbyty wedi codi ac mae rhai systemau iechyd dan straen difrifol, yn enwedig Ffrainc, lle mae 90% o welyau Unedau Gofal Dwys wedi'u llenwi⁴. Yng Ngwlad Belg, mae prinder gwelyau ysbyty yn ddifrifol; o 2 Tachwedd, cadwyd 60% o welyau ar gyfer cleifion COVID-19.⁵
17. Mae'r marwolaethau ar draws Ewrop wedi cynyddu, gyda'r nifer cyfartalog o farwolaethau dyddiol cysylltiedig â COVID-19 ar hyn o bryd yn 612 yn yr Eidal, 595 yn Ffrainc a 169 yng Ngwlad Belg. Serch hynny, mae'r cynnydd cyffredinol ym marwolaethau wedi bod yn llawer arafach na'r don gyntaf⁶.
18. Mae Llywodraethau ar draws Ewrop wedi ymateb i'r don newydd honno gyda chyfyngiadau newydd, fwy caeth sydd â'r nod o atal lledaeniad y feirws. Mae'n debyg y bydd y cyfyngiadau hyn yn aros yn eu lle, ac mae arweinwyr gwleidyddol wedi awgrymu y bydd nifer o fesurau yn aros mewn grym dros gyfnod y Nadolig.


³ Royal Society DELVE Initiative (20 Tach) <https://rs-delve.github.io/>

⁴ <https://www.data.gouv.fr/fr/datasets/donnees-hospitalieres-relatives-a-lepidemie-de-covid-19/>


⁵ System Iechyd Covid-19 <https://www.covid19healthsystem.org/countries/belgium/livinghit.aspx?Section=2.1%20Physical%20infrastructure&Type=Section>

⁶ Royal Society DELVE Initiative (Cyfartaledd treigl 7 diwrnod, 21 Tach)

Ffigwr 1 Marwolaethu COVID-19 ar draws Ewrop Effaith yr ail don ar draws gwledydd Ewrop. Ffynhonnell: ECDC



Ffigwr 2 Derbyniadau i'r ysbyty gyda COVID-19 yn rhyngwladol Graff yn dangos effaith yr ail don ar draws cymaryddion rhyngwladol dethol. Ffynhonnell: ECDC.



AMCANION Y LLYWODRAETH

19. Bydd strategaeth y Llywodraeth yn cael ei harwain gan dri amcan.

- a. **Gostwng R yn is na 1 a'i gadw yno yn barhaus.** R yw'r term epidemiolegol ar gyfer y rhif atgynhyrchu. Mae'r rhif R wedi'i gyfuno â'r raddfa dwf yn disgrifio pa mor gyflym mae'r feirws yn symud drwy'r boblogaeth. Byddai cyfradd R o 3 yn awgrymu, ar gyfartaledd, bod bob unigolyn sydd wedi'i heintio yn heintio tri unigolyn arall. Golyga hyn, o gymryd bod yr haint yn digwydd dros gyfnod byr o amser, bod y feirws yn lledaenu'n gyflym. Mae cadw R dan 1 yn golygu, ar gyfartaledd, y bydd pob unigolyn sydd wedi'i heintio yn heintio llai nag un unigolyn arall, sy'n arwain at y nifer o achosion newydd yn gostwng dros amser. Os na weithredir i atal y feirws, ar ryw adeg, bydd twf mynegrifol yn uwch na'r arfer ac yn llethu gallu capasiti'r GIG. O ganlyniad, byddai nifer fwy o farwolaethau yn uniongyrchol gysylltiedig â COVID-19, a nifer uwch o farwolaethau yn anuniongyrchol gysylltiedig â COVID-19 oherwydd yr effaith ar ddarpariaeth gofal iechyd.
- b. **Dod o hyd i ffyrdd newydd a mwy effeithiol o reoli'r feirws a galluogi bywyd i ddychwelyd i fod yn nes at fywyd normal.** Cyflawnir hyn drwy: ddatblygu a dyrannu brechiadau yn gyflym; triniaethau meddygol newydd, gwell i leihau marwolaethau ac afiachusrwydd; ehangu gallu'r rhaglen profi ac olrhain cyfredol; a defnyddio profion cyflym i adnabod achosion a'u hynysu'n gyflym.
- c. **Lleihau difrod i'r economi a chymdeithas, swyddi a ffyrdd o fyw. Bydd addysg yn cael ei diogelu mewn meithrinffeydd, ysgolion, colegau a phrifysgolion.** Mae hyn yn golygu sicrhau bod y gefnogaeth gywir ar gael i swyddi a bod lleoliadau'r blynyddoedd cynnar, ysgolion, darparwyr addysg bellach a phrifysgolion yn parhau â'u gwaith rhagorol yn sicrhau amgylchedd diogel i fyfyrwyr gael dysgu.

2. Y LLWYBR YN ÔL AT NORMALRWYDD

20. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd y Llywodraeth yn gallu dibynnu llai ar gyfyngiadau economaidd a chymdeithasol a mwy ar atebion sy'n cael eu cynnig gan ddatblygiadau gwyddonol. Ni fydd yn newid hwn yn digwydd dros nos. Ond mae datblygiadau diweddar gyda phrofion yn ei gwneud yn bosibl i leihau achosion yn yr ardaloedd sydd â'r achosion uchaf, ochr yn ochr â'r haenau. Ynghyd â'r rhagolwg o frechiadau effeithiol, mae'r datblygiadau hyn yn rhoi hyder wrth i ni agosáu at y gwanwyn, gall bywyd ddechrau dychwelyd yn nes at fywyd normal.

BRECHIADAU

21. Bydd brechiadau sy'n rhoi imiwnedd cadarn ac effeithiol rhag COVID-19 yn lleihau'n sylweddol cyfradd farwolaeth y feirws a gall gyfyngu ei ledaeniad. Felly, mae dyrannu brechiadau yn cynnig cyfle i reoli'r pandemig gan godi'n raddol nifer o'r cyfyngiadau sy'n eu lle ar hyn o bryd.
22. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi ymdrechion i ymchwilio a darparu brechiad effeithiol, diogel, sydd ar gael yn eang mor fuan â phosibl. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi cytundebau gyda saith datblygwr brechiadau gwahanol. Mae'r Llywodraeth wedi sicrhau mynediad at gyfanswm o dros 350 miliwn o ddosiau rhwng nawr a diwedd 2021. Mae'r tabl isod yn amlinellu cynnydd y gwahanol frechiadau y mae gan y Llywodraeth gytundebau â nhw. Bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod brechiadau ar gael i'r DU gyfan, yn ogystal â Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron a Thiriogaethau Tramor.

<u>Enw</u>	<u>Cam</u>	<u>Cytundebau</u>	<u>Effeithiolrwydd</u>
Rhodychen/AstraZeneca	Cam III	100 miliwn o ddosiau	Data cam II yn dangos ymateb imiwnedd cryf
Pfizer/BioNTech	Cam III	40 miliwn o ddosiau	Effeithiolrwydd o 95% (data rhagarweiniol)
Moderna	Cam III	5 miliwn o ddosiau	Effeithiolrwydd o 94.5% (data rhagarweiniol)
Novavax	Cam III	60 miliwn o ddosiau	Dim data Cam III
Janssen	Cam III	30 miliwn o ddosiau	Dim data Cam III
GlaxoSmithKline/Sanofi	Cam II/III	60 miliwn o ddosiau	Dim data Cam III
Valneva	Cyn-glinigol	60 miliwn o ddosiau	Dim data Cam III

23. Mae cyhoeddiadau cadarnhaol wedi bod yn ddiweddar ynghylch datblygiad brechiadau:

- Ar 9 Tachwedd, cyhoeddodd Pfizer/BioNTech gasgliadau dros dro cam II eu hastudiaeth o'u cynnig am frechiad COVID-19, gan adrodd effeithiolrwydd o 90%⁷.
- Ar 17 Tachwedd, cyhoeddodd Moderna gasgliad astudiaeth cam III o'u cynnig am frechiad COVID-19, gydag effeithiolrwydd y brechiad yn 94.5%.⁸
- Ar 18 Tachwedd, cyhoeddodd Pfizer/BioNTech gasgliad astudiaeth cam III o'u cynnig am frechiad COVID-19, gydag effeithiolrwydd y brechiad yn 95% ar ôl dau ddos.⁹ Maent wedi gwneud cais ffurfiol am drwydded yn yr Unol Daleithiau.

⁷ Pfizer, Pfizer and BioNTech Announce Vaccine Candidate Against Covid-19 Achieved Success In First Interim Analysis From Phase 3 Study, Tachwedd 2020, <https://www.pfizer.com/news/press-release/press-release-detail/pfizer-and-biontech-announce-vaccine-candidate-against>

⁸ Moderna, Moderna's COVID-19 Vaccine Candidate Meets its Primary Efficacy Endpoint in the First Interim Analysis of the Phase 3 COVE Study, Tachwedd 2020, <https://investors.modernatx.com/news-releases/news-release-details/modernas-covid-19-vaccine-candidate-meets-its-primary-efficacy>

⁹ Pfizer, Pfizer And BioNTech Conclude Phase 3 Study Of Covid-19 Vaccine Candidate, Meeting All Primary Efficacy Endpoints, Tachwedd 2020, <https://www.pfizer.com/news/press-release/press-release-detail/pfizer-and-biontech-conclude-phase-3-study-covid-19-vaccine>

- d. Ar 19 Tachwedd, cyhoeddodd Rhydychen/AstraZeneca ganlyniadau dros dro profion parhaus Cam II/III lle dangoswyd ymatebion imiwnedd cryf ar draws pob grŵp oedran, gan wella ar ôl ail ddos.
 - e. Ar 20 Tachwedd, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd a Gofal Cymdeithasol bod y Llywodraeth wedi gofyn yn ffurfiol i MHRA asesu'r brechiad Pfizer o ran ei addasrwydd i'w awdurdodi.
24. Diogelwch y cyhoedd fydd yn dod yn gyntaf bob amser. Dim ond os bydd wedi bodloni safonau cadarn o ran diogelwch, effeithiolrwydd ac ansawdd drwy dreialon clinigol y bydd brechiad COVID-19 yn cael ei gymeradwyo. Bydd MHRA yn cymhwyso'r meini prawf allweddol mewn perthynas â diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd cyn awdurdodi defnydd brechiad. Golyga hyn, unwaith caiff y data ei gyflwyno, y bydd gwyddonwyr a chlinigwyr MHRA yn adolygu'n ofalus a gwyddonol y data diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd, sut mae'n diogelu pobl rhag COVID-19 a'r lefel o ddiogelwch mae'n ei darparu. Bydd y data yn cynnwys:
- a. canlyniadau'r labordy a'r treialon clinigol gyda bodau dynol;
 - b. rheolyddion gweithgynhyrchu ac ansawdd;
 - c. samplu'r cynnyrch; a
 - d. profi'r cynnyrch terfynol.
25. Y Cyd-bwyllgor Brechlynnau ac Imiweiddio (JCVI) yw'r corff arbenigol meddygol a gwyddonol annibynnol sy'n cynghori'r Llywodraeth am flaenoriaethu ar gyfer pob brechiad. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn ystyried blaenoriaethu brechiadau COVID-19 ers sawl mis ac mae eisoes wedi darparu cyngor rhagarweiniol. Diben y cyngor rhagarweiniol hwn yw cefnogi gwaith cynllunio i ddyrannu unrhyw frechiadau diogel ac effeithiol cyn gynted ag y cânt eu hawdurdodi gan MHRA i'w defnyddio ar draws y DU gyfan. Yn yr un modd â'r brechiad fflw, egwyddorion sylfaenol y cyngor yw canolbwyntio'n gyntaf ar leihau marwolaethau, gwella iechyd y boblogaeth drwy leihau afiechydon difrifol a gwarchod y GIG a'r system gofal cymdeithasol. Drwy gyflawni'r nodau hyn gall y Llywodraeth ddechrau codi'r cyfyngiadau presennol yn ddiogel.
26. Mae'n bwysig cofio hefyd bod union gryfder a hyd yr imiwnedd a ddarperir drwy frechiad yn anhysbys ar hyn o bryd. Mae amddiffyniad drwy frechiad yn cymryd amser i'w adeiladu, yn gofyn cwrs llawn, ac nid yw'n hysbys pa mor dda fydd y brechiadau cyntaf am atal y feirws rhag lledaenu rhwng unigolion.
27. Mae'r JCVI wedi canfod bod y risg o afiechyd difrifol a marwolaeth yn sgil COVID-19 yn cynyddu'n sylweddol gydag oed, ac mae hefyd yn uwch ymhlith y rheiny sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol. Maent wedi cynghori cyn belled â bod brechiad ar gael sy'n ddiogel ac effeithiol ymhlith oedolion hŷn, dylent fod yn flaenoriaeth uchel ar gyfer brechiad. Mae cyngor rhagarweiniol y Pwyllgor, felly, yn blaenoriaethu brechiad

yn seiliedig ar oedran. Mae blaenoriaethau rhagarweiniol y JCVI wedi'i gyhoeddi, ond bydd yn parhau i gael ei ddiweddarau.¹⁰

28. Bydd JCVI yn cadarnhau cyngor ar flaenoriaethu unrhyw frechiad wrth ystyried data profion clinigol terfynol cam 3. Mae nodweddion y gwahanol frechiadau yn ystyriaethau allweddol yn y fethodoleg ddarparu a all effeithio ar flaenoriaethu. Bydd dealltwriaeth well i'w chael ynghylch nodweddion clinigol brechiad ar ôl ei gyflwyno, bydd teilyngdod a blaenoriaethau rhoi brechiadau i oedolion risg is ar draws y DU yn cael eu hystyried, a bydd system wylidwraeth ffarmacolegol y DU yn cynnal gwaith monitro parhaus o ddiogelwch ac effeithiolrwydd pob brechiad.
29. Bydd y gwaith brys mae'r GIG yn ei wneud yn sicrhau y bydd yn barod i ddyrannu'r brechiad cyn gynted ag y bydd yn barod a'i drwyddedu gan yr MHRA i'w ddefnyddio yng Nghymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys sicrhau lleoliadau a staff i roi'r brechiadau, gweithredu modelau darparu a sefydlu cadwyn gyflenwi weithredol felly pan fydd brechiad ar gael, bydd yn barod i gael ei ddefnyddio. Yn dibynnu ar eu nodweddion terfynol, gall rhai brechiadau fod yn fwy addas i wahanol fodolau darparu. Mae'n bosibl y bydd angen addasu rhaglen ddarparu'r GIG o restr flaenoriaeth y JCVI er mwyn osgoi gwastraff diangen.
30. Mae'r GIG yn y broses o sefydlu canolfannau brechu màs ar draws y wlad sy'n gallu rheoli'r her logisteg o angen storio'r brechiad Pfizer ar finws 70 gradd Celsius. Yn ogystal, mae'n sefydlu hybiau brechu mewn ysbytai i staff y GIG. Bydd yn cael ei chyflwyno yn y gymuned hefyd, a fydd yn cynnwys y rheiny sy'n ei chael hi'n anodd teithio.

TRINIAETH

31. Bydd triniaethau effeithiol ar gyfer COVID-19 yn parhau i fod yn hanfodol i reoli'r feirws hyd yn oed wrth i frechiadau gael eu cyflwyno yn y DU ac yn fyd-eang, gan gynnwys i'r rhai na ellir eu brechu, oherwydd bod eu system imiwnedd wedi'i heffeithio, er enghraifft. Bydd dod o hyd i driniaethau effeithiol yn lleihau'r risg i fywydau a salwch difrifol i bobl sy'n cael y feirws ac yn ein cefnogi i ddychwelyd i fyw bywyd normal.
32. Mae'r Llywodraeth yn darparu rhaglen flaenllaw o brofion clinigol, gan gynnwys RECOVERY (treial clinigol rheoledig ar hap mwyaf y byd ar gyfer triniaethau mewn ysbytai) a REMAP-CAP, sy'n profi triniaethau posibl mewn gofal sylfaenol, difrifol a dwys yn eu tro. Mae awgrymiadau cynnar o'r prawf REMAP-CAP y mis hwn yn

¹⁰ Ar 22 Tachwedd, dyma oedd y rhestr: preswylwyr hŷn mewn cartref gofal a gweithwyr cartrefi gofal; pawb sy'n 80 oed neu'n hŷn a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol; pawb sy'n 75 oed a hŷn; pawb sy'n 70 oed a hŷn; pawb sy'n 65 oed a hŷn; oedolion risg uchel sy'n ieuengach na 65 oed; oedolion risg cymedrol sy'n ieuengach na 65 oed; pawb sy'n 60 oed a hŷn; pawb sy'n 55 oed a hŷn; pawb sy'n 50 oed a hŷn; a gweddill y boblogaeth (blaenoriaeth i'w phennu)

awgrymu y gall tocilizumab chwarae rôl bwysig yn gwella canlyniad cleifion unedau gofal dwys.

33. Disgwylir rhagor o ganlyniadau i gyffuriau imiwnotrawsgyweiriadol, gwrthfeirysol, gwrthfotigau, gwrthgyrff therapiwtig a phlasma ymadferol i gleifion ar wahanol gamau o'r salwch a gwahanol leoliadau gofal, gan gynnwys ysbytai a chleifion gofal dwys, gofal sylfaenol a chartrefi gofal.
34. Mae gwrthgyrff yn gydran bwysig o reoli COVID-19 ym mywydau bob dydd. Gellir eu defnyddio'n therapiwtig i gleifion sydd wedi'u heintio a phroffylactig i gleifion sydd ag imiwnedd gwan na ellir eu brechu. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi ymdrechion i ymchwilio i therapïau gwrthgyrff effeithiol a'u cynhyrchu ac mae profion cam III yn dal i fynd rhagddynt.
35. Bydd y Llywodraeth yn parhau i recriwtio ar gyfer profion clinigol er mwyn magu rhagor o ddealltwriaeth fyd-eang o ba therapiwtig sy'n effeithiol, a chyhoeddi ymyriadau sydd wedi'u profi ac sydd ar gael i'r GIG.
36. Gall cleifion sydd wedi cael prawf COVID-19 positif fod yn gymwys i gymryd rhan mewn prawf clinigol: gweler <https://beportofresearch.nihr.ac.uk> am fanylion. Mae'r Llywodraeth hefyd yn annog y rheiny sydd wedi gwella o COVID-19 i ystyried rhoi plasma ymadferol i helpu eraill. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion drwy'r ddolen ganlynol: <https://www.nhsbt.nhs.uk/how-you-can-help/convalescent-plasma-clinical-trial>.

PROFION

37. Mae'r gallu i brofi ar gyfer y rhai sydd â symptomau COVID-19 wedi cynyddu bron bum gwaith mewn chwe mis, o 100,000 y dydd yn niwedd Ebrill i 500,000 y dydd erbyn diwedd Hydref, gyda chynlluniau i fynd hyd yn oed ymhellach erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn ar gael i ddinasyddion ym mhob rhan o'r DU. Gyda'i gilydd, mae dros 37 miliwn o brofion wedi'u cynnal¹¹, sy'n fwy nag unrhyw wlad arall cymharol yn Ewrop. Mae'r Llywodraeth wedi agor dros 680 o safleoedd profi, gan leihau'r pellter canolrifol a deithir am brawf i 2.6 milltir¹². Bydd defnyddio technolegau profi newydd ac adeiladu labordai newydd yn cynyddu'n sylweddol y raddfa brofi, gan alluogi llawer mwy o brofion i grwpiau allweddol megis staff y GIG, cartrefi gofal a gofal cymdeithasol, yn ogystal â chreu gallu eang i dargedu dinasoedd a rhanbarthau lle bynnag y mae'r angen.

¹¹ Iechyd Cyhoeddus Lloegr a NHSX, Testing in United Kingdom, Tachwedd 2020, <https://coronavirus.data.gov.uk/details/testing>

¹² Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Test and trace weekly stats (5-11 November), Tachwedd 2020 <https://www.gov.uk/government/publications/nhs-test-and-trace-england-and-coronavirus-testing-uk-statistics-5-november-to-11-november/weekly-statistics-for-nhs-test-and-trace-england-and-coronavirus-testing-uk-5-november-to-11-november>

38. Mae'r Llywodraeth yn gweithio i wella'r amser dychwelyd canlyniadau ar gyfer y profion hyn er gwaethaf y cynnydd yng ngraddfa a chymhlethdod logistaidd y rhwydwaith sydd wedi'i ehangu. Mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda Chyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd Lleol i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn chwarae rôl allweddol yn helpu i ddyrannu profion mewn ffyrdd sy'n cyrraedd y bobl yn y risg mwyaf o gael eu heintio â'r feirws a'r rheiny sy'n byw mewn lleoliadau lle mae'r gyfradd ledaenu yn uchel.
39. Mae'r cynnydd yn y gallu i brofi wedi'i ychwanegu at waith i wella olrhain cysylltiadau. Yn yr wythnos ddiwethaf o'r ffigyrau a gafodd eu hadrodd (5 hyd at 11 Tachwedd), cafodd 156,853 o bobl eu trosglwyddo i'r system olrhain cysylltiadau, gwnaed cysylltiad llwyddiannus â 85% o'r bobl hynny a gofynnwyd iddynt ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'u cysylltiadau ac ymatebodd 78% o'r cysylltiadau hynny y ddarparwyd eu manylion i hysbysiadau yn gofyn iddynt hunanynysu¹³. Mae gwaith i wella olrhain cysylltiadau yn parhau, gan gynnwys cyflwyno partneriaethau olrhain gydag Awdurdodau Lleol i sicrhau y cysylltir â chyfran fwy o bobl sydd wedi profi'n bositif, cynorthwyo i ddarparu'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt a'u teuluoedd i hunanynysu'n llwyddiannus ac ynghynt, ac adnabod a chyrraedd unrhyw gysylltiadau maent wedi'u cael y tu allan i'w haelwyd uniongyrchol. Yn ogystal, mae ap COVID-19 y GIG wedi'i lawrlwytho 20 miliwn o weithiau, ac mae hyn yn cefnogi'r ymdrech i olrhain cysylltiadau, gan gynnwys drwy ddefnyddio'r gallu cofrestru gyda chod QR.
40. Hyd yn hyn, mae'r profion wedi'i ganolbwyntio ar brofi pobl symptomatig, profi mewn ardaloedd lle mae achosion a gwarchod y rheiny sydd fwyaf mewn risg, er enghraifft mewn cartrefi gofal. Bydd yr ymdrechion hynny yn parhau ond mae'r defnydd o brofion nawr yn cael ei ehangu i adnabod y rheiny nad ydynt yn dangos symptomau ac sy'n gallu heintio pobl yn ddjarwybod iddynt. **Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno profion rheolaidd fel opsiwn arall i'r angen am hunanynysu i bobl sydd wedi cael cyswllt agos gyda rhywun sydd â COVID-19. Yn hytrach, bydd cysylltiadau yn cael cynnig profion rheolaidd fel opsiwn arall i hunanynysu a bydd gofyn iddynt hunanynysu dim ond os ydynt yn profi'n bositif.** Bydd hwn yn mynd dan bawf yn Lerpwl i ddechrau, yna rhai lleoliadau sefydliadol (e.e. y GIG, cartrefi gofal, addysg, cyflogwyr) cyn diwedd y flwyddyn, cyn ei gyflwyno ar draws y wlad yn gynnwys flwyddyn nesaf.
41. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn gweithio i ddilysu technolegau profi newydd, ac erbyn hyn mae tair prif ffordd o brofi yn ogystal â PCR sydd ar gael ar gyfer eu dyrannu: dyfeisiau llif ochrol, LAMP (Helaethiad Isothermol ar ffurf Dolen) a LamPORE. Mae dyfeisiau llif ochrol eisoes ar gael ar raddfa sylweddol, ac yn yr un modd â ffocws ein hestyniad o brofion cyflym yn y dyfodol agos.
42. Mae'r blaenoriaethau uniongyrchol i ehangu profion asymptomatig wedi'u gosod yn y tabl isod. Maent yn seiliedig ar ardaloedd lle mae angen gwarchod y bobl fwyaf

¹³ Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, NHS Test and Trace Weekly statistics, Tachwedd 2020
<https://www.gov.uk/government/publications/nhs-test-and-trace-england-and-coronavirus-testing-uk-statistics-5-november-to-11-november>

bregus yn y gymdeithas a lle y disgwylir canfod mwy o achosion positif. Mae'r Llywodraeth yn gweithio i gynyddu gallu ymhellach yn ystod 2021, a bydd yn ystyried llinynnau ychwanegol gyda hyn, yn ogystal ag edrych i alluogi darpariaeth profion ymhellach yn y sector preifat ac mewn partneriaeth â phrifysgolion. Bydd y gallu hwn yn helpu'r Llywodraeth i dargedu mesurau i ddod o hyd i achosion yn gyflymach nag o'r blaen a thorri cadwynau lledaeniad.

Ffigwr 3: Ehangu profion Statws llifoedd gwaith profi cyflym.

<u>Llinyn profion cyflym</u>	<u>Statws</u>
Staff y GIG sy'n wynebu cleifion: cynyddu'r cynnig am brawf i brofi ddwywaith yr wythnos i staff sydd â chysylltiadau uchel â chleifion	Eisoes yn mynd rhagddo
Staff a phreswylwyr cartrefi gofal: cynyddu amllder y profion, i ddwywaith yr wythnos i staff ac unwaith yr wythnos i breswylwyr	Yn mynd yn fyw ym mis Rhagfyr
Ymweliadau â chartrefi gofal: bydd profion ar gael i hyd at ddau ymwelydd fesul preswlydd i gael eu profi ddwywaith yr wythnos ym mhob cartref gofal.	Peilotau yn mynd rhagddynt, cyflwyno'n genedlaethol o ddechrau mis Rhagfyr
Staff a phreswylwyr risg uchel, staff gofal ychwanegol a chefnogi byw: profion ddwywaith yr wythnos i staff ac unwaith yr wythnos i breswylwyr	Yn mynd yn fyw ym mis Rhagfyr
Staff gofal cartref cofrestredig: profion ar gael yn wythnosol	I ddechrau ei gyflwyno'n syth
Lleoliadau gofal cymdeithasol eraill: profi gweithwyr gofal cartref eraill, gan gynnwys cynorthwyrwyr personol.	Cyflwyno mewn camau tua diwedd mis Rhagfyr
Ffatrïoedd gweithgynhyrchu bwyd: dechrau profion wythnosol i'r holl staff	Peilotau yn mynd rhagddynt, cyflwyno'n genedlaethol ym mis Rhagfyr
Lleoliadau caeëdig, gan gynnwys carchardai a chanolfannau noddfa: profion wythnosol i'r holl staff a charcharorion	Peilotau yn mynd rhagddynt, cyflwyno mewn camau i ddechrau ym mis Rhagfyr
Staff gweithredol brechiadau/profi: profion wythnosol i staff allweddol sy'n darparu'n weithredol a'r cadwynau cyflenwi	Yn mynd yn fyw ym mis Rhagfyr

43. Bydd y Llywodraeth yn parhau i brofi rhagor o brofion cyflym mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion, ac yn trefnu profion cyflym ar gyfer digwyddiadau un tro penodol. Mae hyn yn cynnwys profi myfyrwyr prifysgol cyn eu bod yn teithio ar gyfer y Nadolig, gan ddechrau o 30 Tachwedd, yn ogystal â chefnogi prifysgolion i sefydlu cynlluniau profion parhaus. Mae peilotau profi rhanbarthol yn Lerpwl (dros 100,000 o bobl wedi'u profi mewn safleoedd profi asymptomatig)¹⁴ a Merthyr Tudful wedi rhoi profion cyflym dan brawf gan eu cynnig i boblogaeth ehangach ac yn gwneud cyfraniad at ostyngiad yn yr achosion positif ochr yn ochr â mesurau eraill.
44. Mae'r peilotau hyn wedi helpu'r Llywodraeth i ddatblygu cynnig am ymchwydd profi cymunedol cyflym. **Bydd y rhaglen brofi cymunedau yn cynnig cyfle i Awdurdodau Lleol yn ardaloedd haen 3 i gymryd rhan mewn ymchwydd profi**

¹⁴ BMJ, Tachwedd 2020 <https://www.bmj.com/content/371/bmj.m4460>

dros gyfnod o chwe wythnos. Bydd hyn yn galluogi Awdurdodau Lleol i gynnig profion i'r boblogaeth gyffredinol yn ogystal â thargedu gweithleoedd a diwydiannau risg uchel, cymunedau anodd eu cyrraedd ac ysgolion mewn ymdrech gydlynol i ostwng achosion. Bydd yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol i sicrhau ei bod wedi'i theilwra i amgylchiadau ac anghenion lleol. Mae'r Llywodraeth hefyd yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i gydlynu cynlluniau profi a chyflawni gallu ychwanegol i brofi yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

45. Bydd y Llywodraeth yn parhau, ym mhob haen, i ddefnyddio mecanweithiau rhybuddion cynnar megis profi dŵr gwastraff, darparu profion cyflym i'w trefnu gan Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, ehangu partneriaethau mewn perthynas ag olrhain cysylltiadau a threfnu safleoedd profi hyblyg lle mae nifer o achosion. Dylai hyn gynorthwyo i leihau'r nifer o achosion mewn ardaloedd sydd â llai o achosion, gan alluogi ystod ehangach o weithgarwch arferol i barhau.
46. **Caiff y strategaeth aeaf hon ei chefnogi gan £7 biliwn yn ychwanegol i Brofi ac Olrhain y GIG, gan gynnwys profi cymunedau a gwelliannau parhaus i waith olrhain,** gan godi cyfanswm y cyllid a ddarparwyd i Brofi ac Olrhain y flwyddyn ariannol hon i £22 biliwn.
47. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd enfawr a manteision iechyd ymweliadau i bobl mewn cartrefi gofal a'u hanwyliaid. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i roi diwedd ar boen bod ar wahan a chynorthwyo cartrefi gofal i ddod â theuluoedd ac anwyliaid at ei gilydd mewn modd sy'n cydnabod y risgiau, ond sy'n galluogi i'r rheiny gael eu rheoli yn y ffordd orau bosibl. Mae lansio profion i ymwelwyr yn gam hanfodol i wneud i hyn ddigwydd ac mae'r dull gweithredu hwn yn cael ei roi dan brawf mewn 20 cartref gofal. Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i ddarparu profion ddwywaith yr wythnos i alluogi preswylwyr cartrefi gofal i gael ymweliadau rheolaidd gan hyd at ddau ymwelydd, a hynny erbyn y Nadolig. Os gaiff ymwelydd brawf negatif, yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol, ac yn dilyn mesurau rheoli heintiau eraill, yna bydd yn bosibl i ymwelwyr gael cyswllt corfforol gyda'i anwylyd, megis darparu gofal personol, gafael dwylo a chofleidio. Cyhoeddir cyfarwyddyd manwl yn fuan.
48. Pwysig hefyd yw rheoli'r nifer o achosion a gyflwynir o wledydd tramor. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno mesurau iechyd y cyhoedd ar y ffin, gan gynnwys cyfnod hunanynysu o 14 diwrnod ar gyfer y bobl sy'n cyrraedd o wledydd rhyngwladol, ac wedi cyflwyno system coridorau teithio i gyfyngu'r gofynion hyn i'r gwledydd hynny sydd ag achosion uwch. Mae'r Llywodraeth eisiau galluogi pobl i deithio'n rhyngwladol, ar gyfer busnes a hamdden, felly dilyn gwaith helaeth a ymgymherwyd gan y Tasglu Teithio Byd-eang dros y mis diwethaf, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi'r camau nesaf yn fuan. Bydd y Llywodraeth hefyd yn sefydlu'r mesurau ehangach a argymhellwyd gan y Tasglu i gefnogi adferiad diogel teithio rhyngwladol. Bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda phartneriaid rhyngwladol i ddarparu dealltwriaeth fyd-eang gyfrannol ynghylch sut i integreiddio ystod o fesurau i gefnogi teithio rhyngwladol.

3. RHEOLI'R FEIRWS


DULL TARGEDIG YN LLOEGR

49. Mae'r datblygiadau gwyddonol a ddisgrifir uchod yn cynnig y llwybr yn ôl at normalrwydd. Ond nes bydd y rhain ar waith, rhaid i'r Llywodraeth barhau i ddefnyddio adnoddau eraill i atal y feirws.
50. Wrth i'r wlad ddod o'r don gyntaf yn ystod yr haf, ceisiodd y Llywodraeth dargedu twf rhanbarthol yn yr heintiau drwy gymryd y mesurau angenrheidiol i gyfyngu'r feirws lle'r oedd y nifer uchaf o achosion wrth leihau amhariad.
51. Yn yr hydref, dechreuodd y nifer o achosion godi. Ymatebodd y Llywodraeth gyda system haenau i symleiddio'r dull gweithredu lleol blaenorol.
52. Ar ddiwedd mis Hydref, dangosodd fodelau gan GIG Lloegr bod taflwybr y feirws yn golygu bod y GIG mewn risg o fod yn fwy na'r gallu arferol ac ymchwydd mewn rhannau o'r wlad o fewn wythnosau. Dan ragamcaniad cyfunol SPI-M, rhagwelwyd y byddai bron i 30,000 o bobl mewn ysbytai ledled Lloegr yn gynnar ym mis Rhagfyr - yn agos at ddwbl y 17,000 o welyau a gafodd eu defnyddio yn ystod y brig cyntaf¹⁵. Yn Lloegr, dangosodd arolwg yr ONS bod 618,700 - neu 1 mewn 90 - o bobl wedi'u heintio â COVID-19, gyda dros 50,000 o achosion newydd bob dydd¹⁶. Nid yn unig oedd y niferoedd hyn yn uchel, ond roeddynt yn codi hefyd. Amcangyfrifodd SAGE bod R yn parhau i fod yn uwch nag 1 a bod achosion o COVID-19 yn codi ledled y wlad. Felly, roedd ymyrraeth genedlaethol yn hanfodol.

¹⁵ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/932251/Slides_presented_by_Chief_Scientific_Advisor_to_accompany_coronavirus_press_conference_31_October_2020.pdf

¹⁶ ONS Covid-19 Infection Survey, 6 Tachwedd 2020 <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/bulletins/coronaviruscovid19infectionsurveyspilot/6november2020>

Ffigwr 4: Cleifion preswyl COVID-19 yn Lloegr Graff yn dangos y nifer cynyddol o gleifion ysbyty sydd â COVID-19, yn enwedig drwy fis Hydref a Thachwedd. Yn cynnwys yr holl bobl mewn gwely claf preswyl y GIG neu sector annibynnol sydd â phrawf positif ar gyfer COVID-19. Ffynhonnell: <https://www.england.nhs.uk/statistics/statistical-work-areas/covid-19-hospital-activity/>



53. Mae canlyniadau diweddaraf arolwg heintiau'r ONS a gyhoeddwyd ar 19 Tachwedd yn awgrymu bod y gyfradd heintio wedi sefydlogi yn yr wythnosau diwethaf, a gostyngodd y nifer o achosion newydd y diwrnod i 38,900 o 47,700 yr wythnos ynghynt. O ystyried eu heffaith economaidd, cymdeithasol a'u heffaith enfawr ar iechyd y cyhoedd, cred y Llywodraeth yw ei bod yn briodol dod â chyfyngiadau cenedlaethol i ben ar 2 Rhagfyr, nawr ein bod yn cael rheolaeth o'r feirws. O ganlyniad, ledled Lloegr gyfan, bydd y cyfyngiad aros gartref yn dod i ben, bydd siopau nad ydynt yn hanfodol yn ailagor, bydd gofal personol yn agor, ni fydd y sector campfa a hamdden wedi cau mwyach, bydd gweithgareddau chwaraeon awyr agored yn cael eu cynnal unwaith eto, bydd pobl yn gallu cwrdd â chyfeillion a theulu mewn mannau awyr agored gan lynu wrth y rheol 6, a gall priodasau ac addoli cyfunol ailddechrau.
54. Bydd achosion y feirws yn parhau i fod yn uchel ar draws y wlad ar 2 Rhagfyr, gyda gwahaniaethau rhwng rhanbarthau. Felly, rhaid i'r Llywodraeth **ailweithredu dull haenau rhanbarthol yn Lloegr er mwyn parhau i atal y feirws drwy gydol y**

gaeaf. Unwaith eto, bydd y dull hwn yn ceisio targedu mesurau yn yr ardaloedd priodol ac yn ildio achosion uchel yn y tarddiad.

55. Mae'r grŵp Modelu Gwyddonol y Pandemig Ffliw (SPI-M), is-grŵp SAGE, yn amcangyfrif ei bod yn bosibl bod y cyfyngiadau haen 3 cychwynnol a gytunwyd gan ardaloedd lleol yn gysylltiedig â gostyngiad yn R o rhwng chwarter i hanner mewn cymhariaeth ag effaith haen 1. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fyddai cyfyngiadau sylfaenol haen 3 wedi bod yn ddigon ar lefel ranbarthol neu genedlaethol i leihau R yn is nag 1, ac mae'n bosibl bod angen haen gryfach ar rai ardaloedd i atal yr epidemig rhag tyfu. Mae SPI-M hefyd yn amcangyfrif bod symud o haen 1 i haen 2 yn gysylltiedig â gostyngiad dinod yn R. Roedd yr effeithiau hyn yn ddigon i ddod â R yn is nag 1 mewn rhai ardaloedd, ond yn fwy pwysig, nid oeddynt yn ddigon i atal y twf cyffredinol parhaus ar draws y wlad.
56. Mae'n hanfodol dysgu gan yr haenau blaenorol a'u haddasu i sicrhau eu bod yn ddigon i gadw R yn is nag 1 yn barhaus - fel arall, byddai'r feirws yn dechrau lledaenu'n gyflym eto a byddai'r wlad yn gorfod dewis rhwng cyfyngiadau cenedlaethol dinistriol neu ganiatáu i'r GIG fod dan ragor o bwysau gweithredol. Cyfarfu SAGE ar 12 Tachwedd a daethant i'r casgliad, er mwyn bodloni'r nod o gadw R dan 1, "bydd yn bwysig ystyried ystod o gyfyngiadau sy'n fwy llym na'r rheiny yn y pecyn sylfaenol cyfredol o fesurau yn haen 3 i'w defnyddio o bosibl yn rhai ardaloedd lle nad yw mesurau haen 3 yn gallu lleihau'r nifer o achosion."
57. Felly, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno fframwaith haenau newydd, cryfach a mwy cynaliadwy ar 2 Rhagfyr. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cyfyngiadau a fydd yn berthnasol ym mhob haen.

Ffigwr 5 - Crynodeb o fesurau'r haenau

Haen 1: Rhybudd canolig

Haen 2: Rhybudd difrifol

Haen 3: Rhybudd difrifol iawn

Cwrdd â chyfeillion a theuluoedd

Uchafswm o chwech dan do neu yn yr awyr agored, ac eithrio aelwydydd unigol neu swigen gefnogaeth.

Dim cymysgu dan do rhwng aelwydydd, ac eithrio swigen gefnogaeth. Uchafswm o chwech yn yr awyr agored.

Dim cymysgu dan do rhwng aelwydydd, nac yn y rhan fwyaf o fannau awyr agored, ac eithrio swigen gefnogaeth. Uchafswm o chwech yn rhai mannau cyhoeddus awyr agored (e.e. parciau, cyrtiau chwaraeon, gerddi cyhoeddus).

Bariau, tafarndai a bwytai

Rhaid i leoliadau gynnig gwasanaeth wrth y bwrdd yn unig. Rhaid iddynt roi'r gorau i gymryd archebion am 10pm a rhaid iddynt gau erbyn 11pm.

Rhaid i dafarndai a bariau gau, oni bai eu bod yn gweithredu fel bwytai. Gall lleoliadau lletygarwch weini alcohol gyda phrydau bwyd sylweddol yn unig. Archebion olaf am 10pm a rhaid cau erbyn 11pm.

Lletygarwch wedi cau, ac eithrio gwasanaethau bwyd i fynd, gyrru drwodd neu ddanfon.

Haen 1: Rhybudd canolig

Manwerthu

Yn agored

Adloniant

Yn agored

Gofal personol

Yn agored

Teithio

Cerddech neu beiciwch os yw hynny'n bosibl. Osgowch rhag teithio i ardaloedd Haen 3 (oni bai bod hynny'n gwbl hanfodol, megis ar gyfer gwaith, addysg, sylw meddygol, gwasanaethau ieuencid neu gyfrifoldebau gofalu).

Haen 2: Rhybudd difrifol

Yn agored

Yn agored

Yn agored

Sicrhewch eich bod yn lleihau'r nifer o deithiau a wneir lle bynnag sy'n bosibl. Osgowch rhag teithio i ardaloedd Haen 3 (oni bai bod hynny'n gwbl hanfodol, megis ar gyfer gwaith, addysg, sylw meddygol, gwasanaethau ieuencid neu gyfrifoldebau gofalu).

Haen 3: Rhybudd difrifol iawn

Yn agored

Lleoliadau dan do wedi cau

Yn agored

Osgowch rhag teithio o'r ardal, ac eithrio lle mae hynny'n hanfodol megis ar gyfer gwaith, addysg, gwasanaethau ieuencid, sylw meddygol neu oherwydd cyfrifoldebau gofalu. Sicrhewch eich bod yn lleihau'r nifer o deithiau a wneir lle bynnag sy'n bosibl.

Haen 1: Rhybudd canolig

Haen 2: Rhybudd difrifol

Haen 3: Rhybudd difrifol iawn

Aros dros nos

Caiff ei ganiatáu,
gyda'r aelwyd,
swigen gefnogaeth,
neu hyd at 6 o bobl.

Caiff ei ganiatáu,
gyda'r aelwyd neu'r
swigen gefnogaeth.

Dim aros dros nos y
tu allan i'r ardal leol,
oni bai bod hynny'n
hanfodol ar gyfer
gwaith, addysg neu
resymau o'r fath.

Llety

Yn agored

Yn agored

Wedi cau (gydag
eithriadau cyfyngedig,
megis dibenion gwaith
neu achosion lle
nad yw pobl yn gallu
dychwelyd adref)

Gwaith a busnes

Dylai pawb sy'n gallu gweithio gartref wneud hynny.

Addysg

Lleoliadau addysg gynradd, ysgolion, colegau a phrifysgolion
yn agored. Caniateir gofal plant cofrestredig, gweithgareddau
eraill dan oruchwyliaeth i blant, a swigen gofal plant.

Haen 1: Rhybudd canolig

Mannau addoli

Yn agored, ond ni chaniateir i bobl ryngweithio â mwy na chwech o bobl.

Priodasau ac angladdau

15 gwestai ar gyfer priodasau, partneriaethau sifil, derbyniadau priodas a the angladdau; 30 ar gyfer angladdau.

Ymarfer corff

Ceir cynnal dosbarthiadau a chwaraeon wedi'u trefnu i oedolion yn yr awyr agored, ond rhaid iddynt ddilyn y rheol chwech dan do. Gall gweithgareddau

Haen 2: Rhybudd difrifol

Yn agored, ond ni chaniateir i bobl ryngweithio ag unrhyw un y tu allan i'w aelwyd neu swigen gefnogi.

15 gwestai ar gyfer priodasau, partneriaethau sifil, derbyniadau priodas a the angladdau; 30 ar gyfer angladdau.

Ceir cynnal dosbarthiadau a chwaraeon wedi'u trefnu i oedolion yn yr awyr agored, ond ni chaniateir eu cynnal dan do os oes unrhyw ryngweithiad rhwng pobl o wahanol

Haen 3: Rhybudd difrifol iawn

Yn agored, ond ni chaniateir i bobl ryngweithio ag unrhyw un y tu allan i'w aelwyd neu swigen gefnogi.

15 gwestai ar gyfer priodasau, partneriaethau sifil a the angladdau; 30 ar gyfer angladdau. Ni chaniateir derbyniadau priodas.

Ceir cynnal dosbarthiadau a chwaraeon wedi'u trefnu i oedolion yn yr awyr agored, ond dylai pobl osgoi gweithgarwch cyswllt risg uchel. Ni ddylid cynnal gweithgareddau

Haen 1: Rhybudd canolig

wedi'u trefnu i athletwyr elitaidd, unigolion dan 18 oed a phobl anabl barhau.

